



Hydref 26, 2026, 18:00-20:00

UNDEB ABERYSTWYTH

Hydref 2026 Y SENEDD



Agenda

Croeso

1. Croesawu ac Ymddiheuriadau
2. Cyflwyniadau
3. Ethol dirprwy gadeirydd
4. Dysgu Cymraeg
5. Adroddiad y llywydd
6. Hen Bolisiau (Er Gwybodaeth)

Syniadau

Syniad Un: Dylai'r Undeb ychwanegu Cynrychiolwyr Tai i'r Senedd.

Syniad Dau: Dylai Aelodau'r Senedd golli Breintiau Pleidleisio am fethu â mynychu dau gyfarfod heb ymddiheuro.

Trafod Polisi

1. Trafod Blaenoriaethau'r Undeb: Costau Byw

Sylwadau Olaf y Cyfarfod

1. Unrhyw Faterion Eraill.
2. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf.
3. Diwedd y Cyfarfod.

Dylai'r Undeb ychwanegu cynrychiolwyr tai i'r Senedd.

Cyflwynwyd gan: Laura Young

Crynodeb:

Mae'r Senedd yn bodoli i sicrhau bod gan fyfyrwyr lais yn y penderfyniadau sy'n llywio ac yn datblygu'r Undeb. Fodd bynnag, fel y mae, nid oes cynrychiolydd penodol i bleidio achos myfyrwyr ynghylch materion tai.

Manylion:

Mae tai â rhan hollbwysig yn y profiad myfyriwr yn gyffredinol. Nid yw mynediad i lety diogel, fforddiadwy, ac o ansawdd da yn hanfodol yn unig er budd iechyd corfforol a lles myfyrwyr ond mae'n cael effaith uniongyrchol ar eu gallu i lwyddo'n academiaidd, eu hymdeimlad o berthyn, a'u gallu i gymryd rhan yn llawn ym mywyd y Brifysgol.

Mae amgylchiadau tai gwael yn cyfrannu at gynyddu straen, pryder, ac unigedd cymdeithasol. Canfu ymchwil fod amgylchiadau byw gwael a diffyg ymdeimlad o berthyn mewn llety ynghlwm â'r ffactorau sy'n peri lefelau uwch o iselder, pryder, ac unigedd ymysg myfyrwyr. Ar ben hynny, mae Llyfrgell Dŷ'r Cyffredin yn nodi bod pwysau ariannol ac amgylchiadau byw yn cyfrannu'n sylweddol i iechyd meddwl gwael ymysg myfyrwyr, a all, yn ei dro, arwain at waethygu perfformiad academiaidd a myfyrwyr ymadael ag addysg uwch.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod tai yn parhau i fod yn bryder mawr i fyfyrwyr. Yn Arolwg Costau Byw Undeb Aberystwyth, daeth tai i'r amlwg fel y 4ydd mater mwyaf sylweddol sy'n cael effaith ar fyfyrwyr, y tu ôl i ansicrwydd bwyd, cyfleoedd gwaith, a phryderon cyffredinol. Mae'r pryder hwn yn adlewyrchu pryderon y mae'r Undeb yn eu clywed yn gyson gan fyfyrwyr dros sawl blwyddyn.

Yn ogystal â hyn, amlygwyd achosion niferus o fyfyrwyr yn byw mewn llety tamp, llawn llwydni, ac mewn cyflwr gwael gan ymgyrchoedd llety Undeb Aber cynt. Mae'r pryderon i'w gweld ar lefel genedlaethol. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan SOS-UK ac Universities UK fod 54% o fyfyrwyr sy'n byw yn y sector rhentu preifat wedi profi tamprwydd neu llwydni yn eu llety, tra bod 59% wedi sôn am deimlo'n annifyr o oer yn eu cartrefi. Meddai bron i hanner o'r myfyrwyr hyn fod yr amgylchiadau hyn wedi dylanwadu ar eu hiechyd meddwl er gwaeth.

Er gwaethaf pwysigrwydd tai i les myfyrwyr a llwyddo'n academiaidd, nid oes trefn gynrychioli benodol ar gyfer tai yn yr Undeb ar hyn o bryd. Nid oes cynrychiolydd uniongyrchol a'u prif gyfrifoldeb yw dadlau dros eu buddion a chodi pryderon y myfyrwyr sy'n profi problemau llety o fewn trefn ddemocrataidd yr Undeb.

Felly, dyma gynnig polisi i greu saith swydd Gynrychiolydd Tai:

- Cynrychiolydd Tai Fferm Penglais
- Cynrychiolydd Tai Pantycelyn

- Cynrychiolydd Tai Rosser
- Cynrychiolydd Tai PJM
- Cynrychiolydd Tai Cwrt Mawr
- Cynrychiolydd Llety Allanol y Brifysgol (hy myfyrwyr sy'n byw mewn llety dan reolaeth gyflenwyr megis Codi)
- Cynrychiolydd Myfyrwyr y Sector Preifat x2

Byddai'r cynrychiolwyr yn cael eu hethol ar y cyd â chynrychiolwyr Seneddol eraill yn ystod Etholiadau'r Hydref. I sicrhau cynrychiolaeth go iawn, bydd rhaid i ymgeiswyr fyw yn y llety y maent yn ceisio ei gynrychioli.

Yn ogystal â'u swyddogaeth yn y Senedd, byddai'r Cynrychiolwyr Tai yn creu Bwrdd Cynghori ar Dai. Byddai hyn yn adlewyrchu y drefn lwyddiannus eisoes ar waith i Glybiau, Cymdeithasau, a Chynrychiolwyr Gwirfoddoli, sydd yn y Senedd ac yn cyfrannu i fyrddau cynghori arbenigol. Byddai'r Bwrdd Cynghori ar Dai yn cynnig fforwm penodol i drafod materion yn ymwneud â thai, adnabod tueddiadau sy'n dod i'r golwg, a datblygu argymhellion i'w gweithredu.

Er y byddai cyflwyno cynrychiolwyr ychwanegol yn cynyddu nifer yr aelodau, er mwyn gwneud cworwm yng nghyfarfodydd y Senedd, nid ystyrir y risg yn fawr. Mae cyfarfodydd y Senedd wedi gwneud cworwm yn gyson yn y blynyddoedd diweddar, ac mae disgwyl i gynrychiolwyr gyflawni cyfrifoldebau eu swyddi etholedig trwy fynychu cyfarfodydd.

Mae manteision y cynnig hwn yn drech na'r anfanteision posibl. Byddai sefydlu Cynrychiolwyr Tai yn rhoi goleuni uniongyrchol ar y materion llety sy'n cael effaith ar fyfyrwyr ar draws amryw o amgylchiadau byw. Byddai'n cryfhau atebolrwydd, gwella cyfathrebu rhwng trigolion a'r Undeb, gan alluogi adnabod pryderon ynghylch tai yn gynharach, a sicrhau bod un o'r ffactorau sy'n taro lles myfyrwyr fwyaf yn cael cynrychiolaeth benodol o fewn trefn ddemocrataidd yr Undeb.

Yn y pendraw, byddai'r polisi hwn yn sicrhau bod llais cryf gan fyfyrwyr dros faterion tai ac y gall yr Undeb ddadlau'n well dros lety saff, fforddiadwy ac uchel ei ansawdd i'r holl fyfyrwyr.

Dylai Aelodau'r Senedd golli'r hawl i bleidleisio am fethu â mynychu dau gyfarfod heb ymddiheuro

Cyflwynwyd gan: Francesco Lanzi

Crynodeb:

Mae ar gynrychiolwyr etholedig y Senedd gyfrifoldeb i fynychu cyfarfodydd a chymryd rhan ym mhroses wneud penderfyniadau'r Undeb. Nid yw cynrychiolwyr sy'n parhau i fethu â mynychu cyfarfodydd heb anfon ymddiheuriadau yn cyflawni'r rôl hon. Cynnig y polisi hwn yw dileu hawliau pleidleisio cynrychiolwyr a ganddynt dau absenoldeb heb ei gymeradwyo neu fwy, gan sicrhau fod y grym pleidleisio yn aros gydag aelodau gweithredol a gweithgar.

Manylion:

Bob blwyddyn, mae'r myfyrwyr yn ethol Cynrychiolwyr y Senedd i gynrychioli eu cyfoedion, dadlau dros faterion pwysig, a phleidleisio dros bolisiau sy'n llywio yr Undeb. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn chwarae rhan fawr mewn sicrhau y caiff lleisiau myfyrwyr eu clywed ac y gall y Senedd wneud penderfyniadau ar faterion sy'n cael effaith ar gorff ehangach y myfyrwyr.

I gyfarfodydd y Senedd fynd yn eu blaen, rhaid iddynt wneud cworwm, sy'n golygu mae'n rhaid i o leiaf 50% o'r aelodau +1 fod yn bresennol. Os aiff y nifer o dan y trothwy, ni fydd y Senedd yn gallu cynnal busnes, dadlau cynigion, na gwneud penderfyniadau. Gall hyn ohirio neu atal newidiadau rhag cael eu gweithredu a gallai beri i fyfyrwyr fod heb gynrychiolaeth effeithiol.

Ers i'r Undeb ddechrau cyhoeddi'r cofnod presenoldeb a gwybodaeth bleidleisio, mae wedi dod i'r amlwg bod nifer fach o gynrychiolwyr etholedig heb fynychu un cyfarfod Senedd trwy gydol y flwyddyn ac na fyddant yn anfon ymddiheuriadau ymlaen llaw. Tra bod y cynrychiolwyr yn cadw eu hawliau pleidleisio ac yn cyfri tuag at y gofynion gwneud cworwm, nid ydynt yn cymryd rhan weithredol yn y broses ddemocrataidd y cawsant eu hethol i wneud.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio cryfhau atebolrwydd a sicrhau fod y Senedd yn cadw'n effeithiol trwy gyflwyno canlyniadau am absenoldebau cyson heb esboniad. Yn benodol, caiff hawliau pleidleisio unrhyw aelod o'r Senedd a all bleidleisio sydd â dau absenoldeb cyfarfod Senedd heb esboniad mewn blwyddyn academiaidd eu dileu am weddill y flwyddyn academiaidd oni bai bod Cadeirydd y Senedd yn eu hadfer yn sgil amgylchiadau arbennig.

Ni fyddai'r cynnig hwn yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n anfon ymddiheuriadau cyn cyfarfod. Mae'r Undeb yn cydnabod bod ymrwymadau academiaidd, personol, gwaith, gofal ac iechyd gan fyfyrwyr a allai amharu ar fynychu o bryd i'w gilydd. Pan ddaw'r ymddiheuriadau i law ymlaen llaw, gall staff a swyddogion yr Undeb gadw golwg ar lefelau mynychu a, lle bo'n briodol, ystyried aildrefnu cyfarfodydd er mwyn gwneud cworwm a chynyddu'r niferoedd i'r eithaf.

Mae eisoes cynsail yn yr Undeb dros gysylltu mynychu â chyfrifoldebau cynrychiolwyr. Gall Ymddiriedolwyr o'r Myfyrwyr sy'n methu â mynychu tri chyfarfod heb anfon ymddiheuriadau gael eu diswyddo o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau y gall cyfrifoldebau llywodraethu fynd yn eu blaen yn effeithiol. Gosodir y trothwy i dri yn hytrach na dau am fod Ymddiriedolwyr o'r Myfyrwyr yn gwasanaethau am dymor o ddwy flynedd, o ystyried bod Cynrychiolwyr y Senedd sy'n gwasanaethau am flwyddyn academaidd yn unig.

Mae disgwyliadau mynychu tebyg yn gyffredin ar draws cyrff llywodraethu, elusennau a sefydliadau cynrychiadol, lle'r ystyrir cyfranogiad gweithredol yn rhan hanfodol o ddal swydd etholedig.

Nid yw'r cynnig yn peri proses is-etholiad neu ail-osod, gan y byddai'n debygol o fod yn anymarferol o ystyried amseru cyfarfodydd y Senedd yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn lle, byddai dileu hawliau pleidleisio cynrychiolwyr anweithredol yn lleihau nifer yr aelodau pleidleisio a gyfrir i wneud cworwm. Byddai hyn yn helpu sicrhau y gall cynrychiolwyr gweithredol a gweithgar barhau â gwneud penderfyniadau ar ran myfyrwyr, tra'n hybu mwy o atebolrwydd ymysg y rhai a etholwyd i'w cynrychioli.

Yn y pendraw, nod y cynnig hwn yw gwarchod effeithiolrwydd y Senedd, gwella atebolrwydd, a sicrhau fod penderfyniadau democrataidd yn cael eu gwneud gan gynrychiolwyr sy'n cymryd rhan weithredol yn y swydd y cawsant eu hethol i ymgymryd â hi.